CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 29ain IONAWR 2019.

1 PRESENNOL:

Cynghorwyr Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts, Mr Raymond Evans, Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr Ian Owen, Mr John Pritchard, Mr Einion Parry Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

2 YMDDIHEURIAD:

Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones.

3 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd gan y Cadeirydd.

3.2 DATGAN DIDDORDEB RHAGFARNOL.

3.2.1 Datganodd Cyng Linda Jones diddordeb eitem rhodd ariannol Neuadd y Bentref ac Adran Urdd Gaerwen gan ei bod yn rhan o'r Bwyllgor Rheoli Canolfan Esceifiog a Gwirfoddolwr yr Urdd. Nid oedd y diddordeb personol yn un oedd yn rhagfarnu ac fe gymerodd ran yn yr eitem.

3.2.2 Datganodd Cyng Carol McGregor diddordeb eitem rhodd ariannol Neuadd y Bentref ac Adran Urdd Gaerwen gan ei bod yn rhan o Bwyllgor Rheoli Canolfan Esceifiog a Gwirfoddolwr yr Urdd. Nid oedd y diddordeb personol yn un oedd yn rhagfarnu ac fe gymerodd ran yn yr eitem.

3.2.3 Datganodd Cyng Ian Owen diddordeb eitem rhodd ariannol Neuadd y Bentref ac Adran Urdd Gaerwen gan ei fod yn Gadeirydd Pwyllgor Rheoli Canolfan Esceifiog. Nid oedd y diddordeb personol yn un oedd yn rhagfarnu ac fe gymerodd ran yn yr eitem.

4 CYWIRO, DERBYN & ARWYDDO COFNODION CYFARFOD (27ain Tachwedd 2018).

4.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod Mis Medi 2018 yn gywir. (IO/RR).

Arwyddo.....

5 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

5.1 Sedd Gwag – dywedodd y Clerc y bydd yn trefnu hysbysebu'r sedd gwag gyda'r Cyngor Sir yn y drefn arferol erbyn y cyfarfod nesaf.

5.2 Llwybr 33 – dim datblygiad ar hyn o bryd.

5.3 Giat Cae Chwarae Mawr – dim datblygiad gyda Adran Briffyrdd y Cyngor Sir ar hyn o bryd gyda cais ystyried gosod llinellau gwyn tu allan i fynediad y Cae Chwarae.

5.4 Lon Llangaffo – angen sylw ynghylch a ail lleoli arwydd 40mya a datrys gordyfiant ar bolyn/ffens sydd wedi siglo dan bwysau ochr isa Capel Berea – dim datblygiad ar hyn o bryd.

5.5 Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – atgoffwyd y Clerc y bydd rhaid i'r aelodau wneud penderfyniad annibynnol os am hawlio £150.00 wedi ei glustnodi yn yr adroddiad fel Cynghorydd Cymunedol – pob aelod l ymateb erbyn y cyfarfod nesaf.

6 MATERION CAEAU CHWARAE.

6.1 Cadarnhad fod y Cadeirydd, Cyng Linda Jones a'r Clerc wedi cyfarfod gyda aelodau CPD Gaerwen ac fod y rhent a oedd yn dyledus i'r Cyngor, sef £530.00 wedi ei dalu.

6.2 Roedd aelodau y Clwb Peldroed hefyd wedi gofyn am sefyllfa diweddaraf lles y Cae Chwarae ac roedd y Clerc am cysylltu gyda Adran Eiddo yn gofyn iddynt am ymateb swyddogol

6.3 Postyn Gôl & Graffiti – disgwylir i'r gwaith ei cwblhau pan ddaw tywydd gwell.

7 MATERION PRIFFYRDD.

7.1 Maes Parcio y Cyngor, Lon Gors – llythyr oddiwrth Cyng John Pritchard yn gofyn fod y Cyngor yn clirio coeden ddraenan du yn mesur rhyw 4-5 medr a oedd wedi disgyn i'r maes parcio

7.2 Cais Goleuadau Stryd ym Mhentre Berw – llythyr oddiwrth Mr D G Pritchard yn gofyn am ymateb datblygiad pellach i'r llythyr anfonwyd diwedd 2017 am ystyried gosod mwy o oleuadau stryd ym Mhentre Berw. Oherwydd costau odditeu £30,000+, nid oedd ystyried gosod unrhyw bolion newydd yn bosib ac nid oedd gan y Cyngor Sir unrhyw gyllid cynorthwyol. Y Clerc i ymateb i awdur y llythyr gyda'r gwybodaeth. Fodd bynnag, gofynwyd iddo wneud ymholiadau bellach.

Arwyddo.....

8 ADRODDIAD YR HEDDLU.

8.1 Croesawyd PCSO Alison Williams a Sgt Neil Jones i'r cyfarfod. Nodwyd fod Sgt Jones wedi ymgymeryd cyfrifoldeb materion heddlu dros pentref Gaerwen.

8.2 Gofynwyd iddynt am adroddiad gor-yrru Stryd y Capel deunaw mis yn nol ac angen ail-edrych ar y sefyllfa yn dilyn digwyddiadau yn ddiweddar.

8.3 Adroddiad yn dilyn difrod yn y Ganolfan.

8.4 Adroddiad fod parcio unwaith eto mewn sawl safle yn y pentref yn achosi pryder.

9 ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIROL.

9.1 Cafwyd adroddiad diweddaraf ynghylch Cwmni Hitachi a sefyllfa Wylfa Newydd.

9.2 Nodwyd fod sefyllfa Peilonau Cwmni Horizon ar ddal oherwydd Wylfa.

9.3 Adroddiad Gwasanaethau Plant y Cyngor Sir ac yr effaith mae hyn yn achosi i'r Cyllid.

9.4 Rhoddwyd adroddiad cyflwr a dyfodol Canolfannau Hamdden yr Ynys

10 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

10.1 Cais Codi Sied Amaethyddol – Cefn Poeth, Penmynydd – DAG/2018/1 – DIM SYLWADAU.

10.2 Cais Caniatad Adeilad Rhestredig er mwyn gosod cegin newydd, ail-leoli'r mesurydd trydan, gosod peipiau dwr gwastraff allanol newydd a gosod ffan echdynnu allanol yn – Plas Berw, Pentre Berw, Gaerwen – 33C161E/LB – DIM SYLWADAU.

10.3 Cais Cynllunio Llawn – Creu Maes Parcio, Cyffordd 7 (A55) Gaerwen – FPL/2018/30 – GWRTHWYNEBU' R CAIS ar sail lleoliad anaddas ac nid oedd angen fath safle yn dilyn penderfyniad Cwmni Hitachi ynghylch a Wylfa Newydd.

10.4 Cais Barn Sgrinio ar gyfer dymchwel y lladd-dy presennol ynghyd a chodi stâd diwydiannol – Hen safle Lladd-dy Gaerwen – SCR/2018/7 – nodwyd sylwadau fod angen Asesiad Effaith Amgylcheddol ar y safle yn ogystal a cynnal arolwg traffig yn sgil pryderon y gallai hyn cynyddu oherwydd bwriad yr ymgeisydd o greu stâd diwydiannol ychwanegol.

10.5 Cais Diwygio Amodau Plotiau Stad Llain Capelulo, Pentre Berw, Gaerwen – VAR/2018/14 – DIM SYLWADAU.

Arwyddo.....

10.6 Cais Codi Sied Storio/Porth Car – Merddyn Prudd, Gaerwen – HHP/2019/11 – DIM SYLWADAU.

11 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

11.1 Cysoni Taliadau, Derbyniadau & Cyfrif y Cyngor hyd at 31/12/2018 - cafwyd esboniad llawn o holl wariant y Cyngor hyd at ddiwedd Mis Rhagfyr 2018 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe dderbyniwyd ac arwyddwyd y fantolen yn unfrydol.

11.2 Cytuno Rhoddion y Cyngor ar gyfer 2018/2019:

11.2.1 Cyfraniad £4,500 tuag at costau rhedeg Neuadd Bentref, Gaerwen (s19(3)/LGA1972).
11.2.2 Cyfraniad £750.00 tuag at CPD Gaerwen (s19/LGA1976)/
11.2.3 Cyfraniad £250.00 tuag at Cangen Urdd y Gaerwen (s19/LGA1976).
11.2.4 Cyfraniad £250.00 tuag at Cyngor Ysgol Esceifiog (s137/LGA1972).

11.3 MONITRO Y GYLLIDEB & PENDERFYNNU PRISEB Y CYNGOR AR GYFER 2019/2020:

11.3.1 Dangoswyd dogfen cysoni banc i'r aelodau ac fe welir fod gan y Cyngor £18,761 mewn llaw hyd at 31.1.2019 (£9,698 Cyfrif Cyffredol a £9,063 yn y Cyfrif Cadw). Dangoswyd gwariant o (£14,249) yn erbyn (£19,412) hyd at 31.1.2019 ac roedd hyn yn union a glustnodwyd. Disgwylir casglu Grant Llwybrau (£1,570), Rhent CPD Gaerwen (£530) ac ad-daliad TAW (£750) cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yr unig daliadau sydd yn weddill yw'r Rhoddion uchod (gwelir 11.2) gwerth (£5750) a cyflog y Clerc am 3 mis (£900.00). Fe ddylai hyn golygu y bydd odditeu £5,898 yn weddill yn y Cyfrif Cyffredol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

11.3.2 O safbwynt cronfa wrth gefn, roedd y Cyngor eisoes wedi penderfynnu buddsoddi £3,000 mewn arwyddion fflachio cyflymder newydd a dechrau gwario ar ail-osod lloriau newydd ar holl ofer caeau chwarae (cyfanswm £20,000).

11.3.3 Penderfynwyd felly cyllidebu ar gyfer y canlynol:-

11.3.4

TALIADAU		DERBYNIADAU	
Caeau Chwarae	5,000	Priseb Presennol	17,250
Llwybrau	1, 500	TAW	1,000
Clerc	3, 600	Rhent	265
Yswiriant	1, 000	Grant Llwybrau	1,600
Aelodaeth	250		
Gweinyddu	1, 500		
Rhenti	265		
Archwiliad	400		
Rhoddion Blynyddol	6,250		
CYFANSWM	19,765.00	CYFANSWM	20,115.00

Arwyddo.....

11.3.5 O ystyried yr uchod ac er mwyn amddifyn y gwariant sydd eisoes wedi ei glustnodi, penderfynwyd yr aelodau yn unfrydol o godi'r priseb am 2019-2020 i £18,000. (IO/BM)

11.3.6 Penderfynodd yr aelodau o gario ymlaen a chytundeb Archwilydd Mewnol gyda I G Jones & Co, Cwmni Cyfrifwyr Siartredig yn Langefni.

11.3.7 Gofynnodd y Clerc fod angen diweddaru cofrestr asedau y Cyngor ar gyfer yr archwiliad blynyddol yn dilyn adroddiad yr archwilwyr allanol. Cyng Ian Owen i gynorthwyo'r Clerc.

11.3.8 Roedd y Clerc am ddarparu Rheolau Cyllid Newydd ar gyfer y Cyngor a dosbarthu yn y cyfarfod nesaf.

11.3.9 Roedd y Clerc am ddarparu Rheolau Gorchymyn Statudol Newydd ar gyfer y Cyngor a dosbarthu yn y cyfarfod nesaf.

11.3.10 Penderfynwyd gofyn i Mr O G Jones am gario ymlaen gyda cytundeb cynnal a cadw'r llwybrau.

11.3.11 Penderfynwyd gofyn i Mr Dafydd Hughes am gario ymlaen gyda cytundeb torri a cynnal a chadw'r Cae Chwarae.

12. ADRODDIADAU, YMGYNGHORIADAU & GOHEBIAETH.

12.1 Pwyllgor Y Ganolfan – cafwyd adroddiad gan Cyng Ian Owen am y difrod diweddaraf i'r Neuadd, fod defnydd yn cynyddu, fod yr Ysgol wedi cynnal Cyngerdd Nadolig ac fod angen manion gwaith cynnal a chadw yn ystod y flwyddyn.

12.2 Pwyllgor Llywodraethwyr yr Ysgol – cafwyd adroddiad gan Cyng Ian Owen fod yno bygythiad torri'n nol ar y gyllid ac y gall hyn arwain at problemau staffio.

12.3 Fforwm Cynghorau Tref & Chymunedau – adroddiad Cyng Einion P Williams fod y cyfarfod wedi ganolbwyntio ar Prosiect Newydd Cynllunio Lle a Gyllideb y Cyngor Sir am 2019.

12.4 Ymgyrch y Peilonau – Dim Adroddiad.

12.5 Un Llais Cymru – Dim Adroddiad.

12.6 Eisteddfod Mon (Gaerwen) – Dim Adroddiad.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 26ain CHWEFROR 2019.

13.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ddod ac fe clowyd y cyfarfod am 8:45yh.

Arwyddo……Cadeirydd……Dyddiad.